

Briff Creadigol ar gyfer Cofeb Covid

Cyllideb: £75,000

Hyd y prosiect: Blwyddyn ariannol mis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2025.

Cefndir

Mae Cyngor Abertawe'n gwahodd ceisiadau gan artistiaid/dylunwyr/penseiri/ymarferwyr creadigol cymwys a phrofiadol, y cyfeirir ato fel 'yr artist', i greu celfwaith pwrpasol ac unigryw i dalu teyrnged i'r rheini a effeithiwyd gan bandemig COVID-19 a'u cofio.

Y safle

Ar yr adeg hon, nid yw'r safle wedi'i bennu. Mae mannau cyhoeddus amrywiol sy'n newydd ac yn hen yng nghanol y ddinas ac ardaloedd y glannau gerllaw, lle mae gwaith ailddatblygu ac adfywio sylweddol yn mynd rhagddo. Digwyddodd lawer o'r gwaith paratoi ar ychwanegiadau diweddar at ein hamgylchedd adeiledig yn ystod y pandemig ac wrth i'r ddinas ail-siagio, penderfynwyd bod yr adeg i greu canolbwynt i gydnabod y rheini a effeithiwyd wedi cyrraedd. Gallai hyn gynnwys preswylwyr a'u teuluoedd, dioddefwyr o'r feirws a/neu'r unigolion a'r gwasanaethau niferus a drefnwyd i gefnogi'r ymateb a'r gofal ar gyfer poblogaeth y ddinas a'r bobl fwyaf diamddiffyn.

Rydym yn agored i gyfathrebu â'r artist a benodir ynghylch nodi'r lleoliad mwyaf addas ond dylid ystyried y disgwyliad y bydd y celfwaith yn gweithredu fel cofeb ac fel lleoliad i gofio ac i fyfrio, yn ogystal â darparu ychwanegiad deniadol ac ystyrlon i fan cyhoeddus, gyda golwg sy'n cyd-fynd â'r amgylchedd.

Nodau'r Comisiwn

Rhaid i'r Gofeb COVID gyflawni'r amcanion canlynol:

- Arbenigrwydd - creu celfwaith unigryw, boed yn ddau ddimensiwn neu'n dri dimensiwn, yn nodwedd dirluniedig neu'n ddefnyddiol, e.e. seddi, sy'n benodol i'r safle/ymatebol iddo.
- Ansawdd - mae'r gwaith yn cyfrannu at ansawdd ffisegol yr amgylchedd a phrofiad y rheini sy'n ei ddefnyddio.
- Ymdeimlad o le - gan ddefnyddio cyfeiriadau lleol allweddol sy'n berthnasol i Abertawe a'i chymunedau
- Gellir ei ddylunio, ei gynhyrchu a'i osod o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Llywodraethu'r Prosiect

Comisiynydd y prosiect yw Cyngor Abertawe.

Sefydlwyd gweithgor prosiect sy'n cynnwys swyddogion o wasanaethau perthnasol Cyngor Abertawe, megis y Gwasanaethau Diwylliannol ac Adfywio, i lywio comisiynau celfyddydol cyhoeddus ehangach a disgwylir y bydd y prosiect hwn yn y cylch gwaith hwnnw. Bydd angen i'r artist penodedig ymgynghori â'r gweithgor ar gamau allweddol yn natblygiad y comisiwn, yn ogystal â chontractwyr safle, gan gynnwys y perchnogion a pheirianwyr, gan gyfrannu at unrhyw gyfathrebu ehangach fel y bo'n briodol.

Penodir swyddog Cyngor Abertawe yn Rheolwr Prosiect dynodedig. Bydd y Rheolwr Prosiect hwn yn gweithredu fel y prif bwynt cyswllt ar gyfer yr artist, yn cefnogi'r artist ac yn goruchwyllo cyflwyno'r prosiect mewn ymgynghoriad â gweithgor y prosiect.

Perchnogaeth

Bydd y Gofeb COVID yn eiddo i Gyngor Abertawe ar ôl iddi gael ei gosod.

Bydd contract ar gyfer y comisiwn hwn yn darparu ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gofal priodol ar gyfer y panel, hawlfraint a chydabyddiaeth yr artist.

Hawlfraint

Bydd yr artist yn cadw hawlfraint y gwaith a'r holl atgynrychiadau. Bydd hawl gan Gyngor Abertawe i ddogfennu'r prosiect a defnyddio lluniau o'r celfwaith gorffenedig a'r celfwaith wrth iddo gael ei greu at ddibenion hyrwyddo, gwerthuso ac archifo heb geisio caniatâd ychwanegol neu wneud taliadau pellach.

Disgwyliadau'r Artist

Mae'r cyfle hwn yn agored i ymarferwyr/artistiaid/dylunwyr/penseiri creadigol o'r DU ac yn rhyngwladol. Rydym hefyd yn croesawu ceisiadau gan dimau ar arferion amlddisgyblaethol. Wrth fynegi diddordeb yn y comisiwn hwn, gwahoddir ymgeiswyr i ddangos:

- Gwreiddioldeb creadigol, ansawdd artistig a phroffesiynoldeb yn eu gwaith
- Y gallu a'r awydd i weithio ar y cyd fel rhan o'u harfer creadigol, yn benodol fel rhan o dîm prosiect rhyngddisgyblaethol estynedig.
- Etheg gwaith hunangymhellol, egnïol a rhagweithiol.
- Dealltwriaeth o faterion cysylltedd a'r heriau sy'n rhan annatod wrth gyflwyno gwaith emosiynol, trwy gynnwys y gymuned a gweithio mewn partneriaeth.
- Gallu profedig i gyflwyno prosiectau celf parhaol o safon uchel mewn mannau cyhoeddus ar amser ac o fewn cyllideb, gan ddangos ystyriaethau mynediad deallusol, cynnal a chadw a methodoleg adeiladu.
- Gallu i gwblhau'r comisiwn o fewn yr amserlen arfaethedig.

Bydd yr artist penodedig yn rhan o weithgor a sefydlir i oruchwyllo dyluniad, cynhyrchiad a gosodiad y gwaith celf a gomisiynwyd trwy wneud y canlynol:

- Ymchwilio i'r safle a'r cyd-destun ehangach a gwneud argymhellion i'r cyngor yn unol â hynny.
- Ymgysylltu â phreswylwyr/rhanddeiliaid lleol yn ôl y gofyn mewn perthynas â llywodraethu a'r safle terfynol.

- Cynhyrchu cyfres o gynrychioliadau gweledol o'i ymchwil a'i gysyniad dylunio o ganlyniad i hyn, yn ogystal â delweddau a darluniau gwneuthuriad o'r gwaith arfaethedig, at ddibenion ymgynghori a gwybodaeth.
- Mynd i gyfarfodydd a gwneud cyflwyniadau o'i waith yn ystod cyfarfodydd prosiect.
- Mynd i gyfarfodydd cyswllt â'r gweithgor a'r awdurdodau cymeradwyo (Cynllunio, etc.) a gwneud newidiadau angenrheidiol nes ceir cymeradwyaeth.
- Cysylltu â swyddogion Cyngor Abertawe a chontractwyr sy'n rhan o'r prosiect yn ôl yr angen.
- Darparu prisiau manwl a rheoli'r gyllideb ddysranedig yn effeithiol.
- Darparu gwybodaeth yn ôl yr angen at ddibenion marchnata a chyfathrebu a chytuno i'r gwaith gael ei ddogfennu at ddibenion hyrwyddo, gwerthuso ac archifo.
- Cadw a darparu tystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £5 miliwn ac yswiriant indemniad proffesiynol gwerth £5 miliwn, a chymryd cyfrifoldeb am unrhyw gyfranogaeth gan drydydd parti.
- Sicrhau y cynhyrchir y gwaith celf cytunedig o fewn amserlen y prosiect a'i gludo i'r safle, ar y cyd ag unrhyw berchnogion tir, gweithwyr proffesiynol ADRh, rheolwr y prosiect a'r cleient.
- Cysylltu â chontractwyr safle ynghylch gosod y gwaith, dan oruchwyliaeth yr artist, mewn cydweithrediad â thîm y prosiect ac o fewn y gyllideb ddysranedig.
- Cysylltu â swyddogion Cyngor Abertawe a chontractwyr sy'n rhan o'r prosiect yn ôl yr angen.
- Dilyn rheoliadau ADRh (Adeiladu, Dylunio a Rheoli) lle bo'n briodol.
- Rhoi ystyriaethau manwl i'r canlynol yn natblygiad y dyluniad:
 - Materion iechyd a diogelwch yn y cynnig dylunio a'r gwirediad
 - Methodoleg
 - Cadernid defnyddiau a chadernid adeileddol
 - Methodoleg cynhyrchu
 - Cynnal a chadw tymor hir.
- Darparu cyfarwyddiadau cynnal a chadw llawn ar ôl cwblhau'r gosodiad gyda chanllawiau clir ynghylch y dull gorau o gynnal y celfwaith ac unrhyw driniaeth/wybodaeth arbenigol sy'n angenrheidiol. Dylai'r artist nodi oes ddisgwyliedig y gwaith ac unrhyw weithdrefnau digomisiynu y dylid eu defnyddio.

Cyfyngiadau

Ar yr adeg hon ni nodwyd ac ni ymchwiliwyd eto i'r cyfyngiadau penodol a allai effeithio ar ddyluniad a gweithrediad y gwaith, gan eu bod yn dibynnu ar gynnig yr artist. Bydd angen i'r artist fynd i'r afael ag unrhyw gyfyngiadau sy'n codi yn ystod y cyfnod dylunio mewn ymgynghoriad â'r gweithgor. Rhaid i'r artist sicrhau, mewn ymgynghoriad â'r gweithgor, fod y gwaith celf yn gyflawnadwy ac yn gynaliadwy o ran costau refeniw, risg, cadernid ac o ran yr amserlenni a'r cyllidebau sydd ar gael, a'i adeiladu gyda phob gofal gan ddilyn rheoliadau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a rheoliadau iechyd a diogelwch.

Atodlen y Prosiect

Ar ôl ei benodi, mae gan y comisiwn hwn dri cham a fydd yn caniatáu i syniadau cychwynnol gael eu profi (Cam 1 - Dylunio) cyn cytuno ar y gwaith celf arfaethedig ar

gyfer cynhyrchu (Cam 2 - Cynhyrchu) a'i weithredu (Cam 3 - Gweithredu) o fewn yr amserlen sydd ar gael.

Penodi artist

9 Gorffennaf 2024

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau

wythnos yn dechrau 22 Gorffennaf 2024 Cyfweiliadau ag artistiaid

Cam 1 - Dylunio

Mis Awst - Medi 2024

Ymchwilio a Datblygu a chymeradwyo'r dyluniad terfynol.

Disgwylir y bydd yr amser a dreulir yn cynnwys ymgynghori â gweithgor y prosiect, preswylwyr lleol a chontractwyr.

Cam 2 - Cynhyrchu

Mis Hydref - Tachwedd 2024

Dyluniad manwl hyd at y gwneuthuriad

Cam 3 - Gosod

Gosod y gwaith ar ddiwedd mis Tachwedd a thu hwnt yn destun ystyriaethau ynghylch y safle.

Ffioedd a chyllideb

Cyfanswm cyllideb y prosiect yw £75,000, ac mae angen i hyn dalu'r holl ffioedd, y gwneuthuriad a'r gwaith gosod.

Nid yw'r holl ffioedd a chostau'n cynnwys TAW.

Trefniadau cytundebol

Caiff yr artist llwyddiannus gontract gyda Chyngor Abertawe a bydd amserlen y taliadau ar ffurf taliadau fesul cam i'w cytuno cyn datblygu'r contract.

Sut i gyflwyno cais

I gyflwyno cais, cyflwynwch yr wybodaeth ganlynol i: kate.wood@abertawe.gov.uk erbyn 9 Gorffennaf 2024.

- Hyd at 10 delwedd ddigidol ac, os dymunir, tâp arddangos 10 munud (uchafswm). Dylai pob darn o waith gael ei rifo a chynnwys teitl, dyddiad, dimensiynau/cwmpas, cyfryngau, manylion y prosiect y maen nhw'n perthyn iddo a pherthnasedd i'ch cais.
- CV cyfredol.
- Llythyr cais byr sy'n amlinellu'n fras pam y mae gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn a sut mae'n berthnasol i'ch ymarfer.
- Tystiolaeth o yswiriant indemniad proffesiynol gwerth £5 miliwn ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £5 miliwn.
- Enwau a manylion cyswllt dau ganolwr a all fod yn dyst i'ch addasrwydd i gyflawni'r comisiwn.

Wrth anfon ffeiliau mawr (dros 4MB), darparwch hyperddolenni i ffeiliau ar-lein neu anfonwch nhw trwy DropBox/WeTransfer.

- Hyd at 10 delwedd ddigidol ac, os dymunir, tâp arddangos 10 munud (uchafswm). Dylai pob darn o waith gael ei rifo a chynnwys teitl, dyddiad, dimensiynau/cwmpas, cyfryngau, manylion y prosiect y maen nhw'n perthyn iddo a pherthnasedd i'ch cais;
- CV cyfoes;
- Llythyr cais byr sy'n amlinellu'n fras pam y mae gennych ddiddordeb yn y cyfle hwn a sut mae'n berthnasol i'ch ymarfer;
- Tystiolaeth o yswiriant indemnïad proffesiynol gwerth £5 miliwn ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus gwerth £5 miliwn;
- Enwau a manylion cyswllt dau ganolwr a all fod yn dyst i'ch addasrwydd i gyflawni'r comisiwn.

Proses ddewis

Mae gweithgor wedi'i sefydlu i wneud penderfyniadau allweddol ynglŷn â'r prosiect hwn, gan gynnwys dewis artist i gyflawni'r comisiwn.

Dewisir artistiaid ar sail ansawdd a pherthnasedd eu gwaith yn y gorffennol i'r brîff. Sylwer nad oes angen cynigion arnom ar hyn o bryd oherwydd disgwylir y bydd yr artist penodedig yn datblygu hyn trwy gyfnod o ymchwil ac ymgynghori â'r gweithgor.

Cynhelir cyfweiliadau erbyn yr wythnos yn dechrau 22 Gorffennah 2024 i'w sefydlu ar unwaith. Gall y rhain fod wyneb yn wyneb neu ar-lein, yn destun addasrwydd/cyfleustra i bob parti.

Yn y cyfweiliad, disgwylir i ymgeiswyr siarad yn fwy manwl am eu gwaith yn y gorffennol a'u prosesau gwaith a'r ymagwedd y maen nhw'n rhagweld y byddant yn ei chymryd tuag at y comisiwn. Gofynnir iddynt gyflwyno enghreifftiau o'r gwaith a wnaed ganddynt yn y gorffennol a chânt eu hasesu ar sail y gwaith a wnaed ganddynt yn y gorffennol a'u hymatebion cychwynnol (**nid** cynigion) i'r brîff.

Disgwylir y bydd yr amser yn cynnwys cyflwyniad 20 munud gan yr artist, yna 20 munud o gwestiynau a thrafod a dosberthir manylion yr amser/lleoliad ac aelodau'r panel cyn y cyfweiliad.

Mae Cyngor Abertawe'n ymroddedig i gyfleoedd cyfartal a chaiff ceisiadau eu barnu ar sail y meini prawf a nodwyd uchod, ar sail teilyngdod yn unig a heb ragfarn.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cyfle hwn, e-bostiwch:
kate.wood@abertawe.gov.uk

Creative Brief for a Covid Memorial

Budget: £75,000

Project duration: Financial year April 2024 to March 2025.

Background

Swansea Council is inviting applications from suitably qualified and experienced artists/designers/architects/ creative practitioners – hereto referred to as ‘the artist’, to create a bespoke and distinctive artwork to honour and remember those impacted by the COVID-19 Pandemic.

The Site

At this time, the location is yet to be determined. There are various public spaces new and old in the city centre and its surrounding waterfront districts, which are undergoing substantial redevelopment and regeneration. Much of this preparatory work and recent additions to our built environment took place during the pandemic and as the city reshapes itself, it is now considered time to create a focal point of recognition for those that were affected. This could be residents and their families, victims of the virus and / or the very many individuals and services who were marshalled to aid the response and care for the city’s population and most vulnerable.

We are open to liaising with the appointed artist on identifying the most suitable location but consideration should be given to the expectation that the artwork will function as a memorial and location for remembrance and reflection, as well as provide an attractive and thoughtful addition to the public realm, with an aesthetic in keeping with the surrounds.

Commission aims

The Covid Memorial will be required to achieve the following objectives:

- Distinctiveness – the creation of a unique piece of work, whether this is two or three dimensional, landscaped or utility feature eg seating, that is original and site specific/responsive.
- Quality – the work contributes to the physical quality of the environment and the experience of those using it.
- Sense of place – by drawing on key local references relating to Swansea and its communities
- Is able to be designed, manufactured and installed within the budget available.

Project Governance

The project commissioner is Swansea Council.

A project working group comprising officers from relevant Swansea Council services such as Cultural Services and Regeneration has been set up to steer broader public arts commissions and it is anticipated this project will form part of that remit. The appointed artist will need to consult with the working group at key stages in the development of the commission, as well as site contractors, including site owners and engineers, contributing to any necessary wider communications as appropriate.

A Swansea Council officer will be appointed as the designated project manager. This project manager will act as the main point of contact for the artist and will support the artist and oversee the delivery of the project in consultation with the project working group.

Ownership

The Covid Memorial becomes the property of Swansea Council after installation.

A contract for this commission will provide for appropriate care and maintenance of the work, artist's copyright and acknowledgement.

Copyright

The artist will retain copyright of the work and all reproductions of it. Swansea Council will be entitled to document the project and to use images of the finished work and work in progress for publicity, evaluation and archival purposes without seeking further permissions or making further payments.

Expectations of the Artist

This opportunity is open to UK and internationally based creative practitioners/artists/designers/architects. We also welcome applications from multi-disciplinary teams and practices. In expressing interest in this commission, applicants are invited to demonstrate:

- Creative originality, artistic quality and professionalism in their work
- The ability and desire to work collaboratively as part of their creative practice, in particular as part of an extended interdisciplinary project team.
- A self-motivated, energetic and pro-active work ethic.
- An understanding of the issues of connectivity and the challenges inherent within delivering emotive works with community engagement and partnership working.
Proven ability to deliver high quality permanent art projects in the public realm on time and within budget, demonstrating considerations of intellectual access,
- Capacity to undertake the commission within the proposed timescale.

The appointed artist will form part of a working group set up to oversee the design, production and installation of the commissioned artwork by:

- Researching the site and wider context and making recommendations to the Council accordingly.
- Consulting with local residents/stakeholders as required relating to the governance and final site.

- Producing a series of visual representations of their research and resulting design concept, as well as visuals and fabrication drawings of the proposed work, for consultation and information purposes.
- Attending and making presentations of their work at project meetings.
- Attending liaison meetings with the working group and approving authorities (Planning etc) and making necessary alterations until approval is obtained.
- Liaising with Swansea Council officers and contractors engaged in the project as and when necessary.
- Providing detailed costings and effectively managing the allocated budget.
- Providing information as required for marketing and communications purposes and agreeing for the work to be documented for promotional, evaluation and archiving purposes.
- Holding and providing evidence of £5,000,000 public and liability insurance and £5,000,000 professional indemnity insurance, and take responsibility for any third party.
- Ensuring the production of the agreed artwork within the project timeframe and its delivery to site, in conjunction with any landowners, CDM professionals, project manager and the client.
- Liaising with site contractors regarding installation of the work, which the artist will oversee, in collaboration with the project team, within the allocated budget.
- Liaising with Swansea Council officers and contractors engaged on the project as and when necessary.
- Observing CDM (Construction Design and Management) regulations where appropriate.
- Give detailed considerations to the following in the development of the design:
 - Issues of Health and safety in the design proposal and realisation
 - Methodology
 - Material and structural integrity
 - Methodology of manufacture
 - Long term maintenance.
- Providing full maintenance instructions on completion of installation with clear guidelines as to the best method of maintaining the artwork and any specialist treatment/knowledge that is necessary. The artist should indicate the anticipated lifespan of the work and any decommissioning procedures that should be applied.

Constraints

At this time the particular constraints that might impact upon the design and implementation of the work are yet to be identified and investigated, as they are dependent upon the artist's proposal. The artist will need to address any constraints that arise during the design period in consultation with the working group. The artist must ensure, in consultation with the working group that the artwork is deliverable and sustainable in terms of revenue costs, risk, robustness and available timescales and budgets and constructed with due care to DDA regulations and health and safety regulations.

Project Schedule

On appointment, this commission has three stages that will allow initial ideas to be tested (Phase 1 – Design) prior to agreeing the proposed artwork for production (Phase 2 – Production) and implementation (Phase 3 – Implementation) within the available timescale.

Artist appointment

9 July 2024

Deadline for applications

Week commencing 22 July 2024

Artist interviews

Phase 1 Design

August – September 2024

R&D and final design approvals.

It is expected that time spent will include consultation with project working group, local residents and contractors.

Phase 2 Production

October – November 2024

Detailed design through to fabrication

Phase 3 – Installation

Work installed toward end of November onwards subject to site considerations.

Fees and budget

The total project budget is £75,000, which must cover all fees, fabrication and installation.

All fees and costs are exclusive of VAT.

Contractual arrangements

The successful artist will be contracted by Swansea Council and the payment schedule will be in the form of staged payments to be agreed prior to the development of contract.

How to apply

To apply, please submit the following information to: kate.wood@swansea.gov.uk by 9 July 2024.

- Up to 10 digital images and, if desired, a 10-minute (maximum) showreel. All work should be numbered and include title, date, dimensions/scope, media, details of the project that they relate to and the relevance to your application.
- An up to date CV.
- A brief letter of application that broadly outlines why you are interested in this opportunity and how it is relevant to your practice.
- Evidence of £5,000,000 professional indemnity insurance and £5,000,000 public liability insurance.
- The names and contact details of two referees that can testify to your suitability to undertake the commission.

When sending large files (over 4MB), please provide hyperlinks to on-line files or send via DropBox/WeTransfer.

Selection process

A working group has been established to make key decisions regarding this project, including the selection of artist to carry out the commission.

Artists will be selected on the basis of the quality and relevance of their past work to the brief. Please note that we do not require proposals at this stage because it is expected that the appointed artist will develop this through a period of research and consultation with the working group.

Interviews will take place by week commencing 22 July 2024 for immediate inception. These may take place face to face or online, subject to suitability/convenience of all parties.

At interview, candidates will be expected to speak in more detail about their past work and working processes and the approach they envisage taking towards the commission. They will be asked to present examples of their past work and will be assessed based on their past work and initial responses (**not** proposals) to the brief.

It is envisaged that the time will consist of a 20-minute presentation by the artist, followed by 20 minutes of questions and discussion and details of time/location and panel members will be distributed prior to interview.

Swansea Council is committed to equal opportunities and all applications will be judged according to the criteria set out above, purely on merit and without prejudice.

If you have any questions regarding this opportunity, please email:
kate.wood@swansea.gov.uk